# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn

# 02/02/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Twristiaeth

**C11 Paul Davies:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu twristiaeth yng Nghymru? OAQ(3)2588(FM)

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Yr oedd ein hymgyrchoedd marchnata yn y DU ac yn Iwerddon yn 2009 yn llwyddiant mawr, gan ragori ar bob un o'r targedau. Dechreuodd Croeso Cymru ei ymgyrch 2010 fis diwethaf ac mae'r ymgyrch honno unwaith eto'n cynnwys hysbysebion ar y teledu yn ogystal â phresenoldeb sylweddol ar-lein. Yn rhyngwladol, mae Croeso Cymru yn parhau i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd sy'n cael eu creu gan Gwpan Ryder yng Nghymru.

### Twristiaeth

**C12 Darren Millar:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i dwristiaeth? OAQ(3)2601(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i ddatblygu twristiaeth yng Nghymru ac mae'n cydnabod y cyfraniad pwysig y mae'n ei gwneud i economi Cymru. Yr ydym yn cefnogi twristiaeth mewn nifer o ffyrdd, nid y lleiaf o'r rhain yw rhoi tua £13 miliwn i Croeso Cymru ar gyfer 2010-11.

### Blaenoriaethau

**C13 Angela Burns:** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei brif flaenoriaethau ar gyfer Cymru yn 2010? OAQ(3)2593(FM)

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau yn 'Cymru'n Un' a'n rhaglen ddeddfwriaethol, byddwn yn gwneud penderfyniadau anodd ar wariant, a byddwn yn gosod y sylfeini ar gyfer adferiad economaidd cynaliadwy. Byddwn hefyd yn ceisio ennill mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol.

### Blaenoriaethau

**C14 Mick Bates:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datblygu gofal iechyd ym Mhowys? OAQ(3)2597(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu gwasanaethau gofal iechyd diogel a chynaliadwy ym Mhowys, ac yng ngweddill Cymru. Bydd y gwasanaethau hyn ar gael i bawb ac yn bodloni anghenion ein trigolion o ran gofal iechyd.

### Colledion Swyddi

**C15 Nick Ramsay:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â cholledion swyddi? OAQ(3)2585(FM)

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu nifer o fesurau er mwyn mynd i'r afael â cholledion swyddi yng Nghymru, gan gynnwys y rhaglenni arloesol ProAct a ReAct, GO Wales, Llwybrau at Brentisiaethau, a Recriwtiaid Newydd. Yn ogystal â hyn, yr ydym wedi darparu rhagor o gyllid ar gyfer Adeiladu Sgiliau. Yr ydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau i sicrhau bod eu mesurau hwy ar gyfer mynd i'r afael â'r dirwasgiad yn cael eu gweithredu yn effeithiol yng Nghymru, gan gynnwys rhagor o gymorth i bobl sydd wedi bod yn ddi-waith am chwe mis, y gwarant i bobl ifanc a chronfa swyddi'r dyfodol. Yn ddiweddar, yr ydym hefyd wedi llofnodi fframwaith llafurlu gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, fel y nodwyd yn 'Cymru'n Un', a fydd yn braenaru'r ffordd am gydweithio agosach a gwell integreiddio o ran cymorth ar gyfer cyflogaeth a sgiliau.